Gwasanaeth
Democrataidd
Democratig Service
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

**PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

Cofnodion o gyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar **17 Hydref 2014**
Ystafell Gynhadledd 1, Llangefni

**Presennol:** **Cyngor Gwynedd**

Cyng. Gwen Griffith
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. Lewis Davies
Cyng. Ann Griffith
Cyng. Victor Hughes
Cyng John Arwel Roberts

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylchedd (CG) |
| Nia Davies | Rheolwr - UPCC |
| Bob Thomas | Arweinydd Tîm Tai & Chymunedau – UPCC |
| Heledd Fflur Jones | Arweinydd Tîm Busnes & Economi - UPCC |
| Linda Lee | Uwch Swyddog Cynllunio – UPCC |
| Aled Lewis | Uwch Swyddog Cynllunio - UPCC |

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gethin Glyn Williams (CG)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. Roberts (CSYM)
Jim Woodcock (CSYM)

1] **YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd

2] **DATGANIAD BUDDIANT PERSONOL**

Oherwydd cysylltiadau personol swyddogion efo rhai o’r aneddleoedd o fewn yr Hierarchaeth Aneddleoedd cafwyd y datganiadau o ddiddordeb canlynol a chadarnhawyd nad oedd y swyddogion yma wedi bod yn rhan o’r broses creu'r cynlluniau mewnosodiad ar gyfer rhain:

| **Anheddle** | **Swyddogion efo Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| Bethesda | Nia Davies, Aled Lewis |
| Chwilog | Nia Davies |
| Llanddaniel Fab | Bob Thomas |
| Llangaffo | Heledd Jones |
| Llangefni | Heledd Jones, Linda Lee, Aled Lewis |
| Llangristiolus | Heledd Jones |
| Llanrug | Bob Thomas |
| Porthaethwy | Bob Thomas |

Cafwyd y datganiad o ddiddordeb canlynol gan Aelodau o’r Panel:

| **Anheddle** | **Swyddogion efo Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| Caergybi | Cyng. J. Arwel Roberts |
| Llangaffo | Cyng. Ann Griffith |
| Llangoed | Cyng. Lewis Davies |

Yn ogystal fe gafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan Bob Thomas ar gyfer y Polisi Manwl yn ymwneud a Thelathrebu.

3] **MATERION BRYS**

Ni chyflwynwyd unrhyw faterion brys.

## 4] COFNODION

Cyflwynwyd copi o gofnodion 30 Gorffennaf a 19 Medi 2014 a chytunwyd eu bod yn rhai cywir.

## 5] DATBLYGU'R CYNLLUN ADNAU

**Atodiad A - Polisïau Drafft am Lety Sipsiwn a Theithwyr**

Cafwyd cyflwyniad gan Nia Davies yn gosod y cefndir am y ddyletswydd ar yr awdurdodau i baratoi safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr pan mae yna angen yn bodoli. Mae polisi TAI/9 yn gwarchod safleoedd newydd, TAI/9A yn dynodi safleoedd newydd i gyfarch yr angen sydd yn deillio o'r astudiaeth ranbarthol a pholisi TAI/9B ar gyfer unrhyw angen pellach yn ystod oes y Cynllun.

TAI/9 – Gwarchod Safleoedd Presennol

Sylwadau:

- A yw'r ymgynghoriad wedi cymryd lle efo'r ddwy gymuned leol o fewn ardal y Cynllun.
- Cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Llandygai yn datgan ei gefnogaeth i ymestyniad rhesymol o safle Llandygai.
- Beth sydd yn bwysig yw bod safle yn cael ei redeg yn dda.

Ymatebion:

- Mae'r astudiaeth ranbarthol wedi cynnal arolwg o'r cymunedau lleol ac mae'r Uned mewn trafodaethau efo cymuned Pentraeth.
- Cytuno efo'r pwysigrwydd o redeg safle yn dda a chadw gwahanol gymunedau ar-wahân.

TAI/9A – Dynodi Safleoedd

Esboniwyd heblaw am ymestyniad posib i safle Llandygai gyda ychwanegiad o 5 llain nad oes safleoedd pellach wedi eu hadnabod hyd yma ar gyfer gweddill o'r angen a adnabyddir yn yr astudiaeth ranbarthol. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar gyfer adnabod safleoedd pellach ac fe adroddir cynnydd ar hyn i gyfarfod mis Tachwedd o'r Panel.

- Dim sylw penodol.

TAI/9B – Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr

- Dim sylw penodol.

**Atodiad B – Dosbarthu Unedau Tai**

Cafwyd cyflwyniad gan Nia Davies er mwyn atgoffa'r Panel o'r dosbarthiad gofodol arfaethedig o'r unedau tai o fewn ardal ac yn ystod oes y Cynllun a'r asesiadau sy'n dylanwadu ar yr argymhellion. Cyfeiriwyd tuag at bapurau ynghlwm efo'r atodiad oedd yn diweddaru canfyddiadau'r asesiadau sydd hyd yma heb adnabod problemau sylweddol efo'r polisïau manwl a dynodiadau/dosbarthu'r twf.

Sylwadau:

- Pryderu faint o waith ymchwil sydd wedi cymryd lle ar effaith mewnlifiad dros yr 20 mlynedd ddiwethaf ar yr iaith Gymraeg.
- Yr economi sydd yn bwysig er mwyn cadw y bobl ifanc o fewn yr ardal.
- Mae hyd yn oed tai fforddiadwy allan o gyrraedd nifer helaeth o'r gymuned leol a dylid ystyried cefnogi tai symudol/tai pren gan fod y rhain yn rhatach i'w hadeiladu.
- Angen sicrhau bod yna gyfleoedd ar gael i bobl ddychwelyd yn ôl i'r ardal.
- Cau ysgol mewn pentref yn gallu cael effaith negyddol iawn ar yr iaith Gymraeg gan fod pobl leol ddim eisiau aros mewn cymuned heb ysgol.
- Tai rent cymdeithasol sydd ei angen mewn rhai ardaloedd ble na all pobl fforddio prynu tai fforddiadwy.

Ymatebion:

- Wedi cynnal adolygiad o ffigwr twf y cynllun a phlethu'r angen efo cyfleoedd gyflogaeth dros oes y cynllun.
- Mae yna waith ar broffil ardal ac ymchwil trwy arolwg tai ac iaith wedi ei gynnal i asesu effaith posib twf y cynllun ar yr iaith Gymraeg.
- Y math o dai sydd yn cael ei hyrwyddo sydd yn bwysig.
- Rhaid cofio mae hwylusydd yw'r cynllun ar gyfer creu cyfleoedd dwf i gyfarch anghenion ardal y cynllun.
- Efo ail ddatblygu safleoedd ysgol a all gau yn oes y cynllun mae fyny i'r ddau Gyngor benderfynu beth yw ei blaenoriaethau o ran unrhyw ddatblygiad llety preswyl ar y safle a faint o dai fforddiadwy i'w baratoi.

**Atodiad C – Newidiadau Arwyddocaol i Bolisïau Manwl**

Cafwyd cyflwyniad gan Bob Thomas ar gyfer newidiadau i bolisïau Tai, Ynni Adnewyddol a Thrafnidiaeth a gan Nia Davies ar gyfer polisi Telathrebu.

1] Polisïau Tai

TAI/2 – Isrannu eiddo Presennol

Sylwadau:

- Poeni am yr effaith o golli tai a fflatiau i fyfyrwyr yng nghyffiniau Bangor ac effaith hyn ar y cymunedau leol.
- Poeni am effaith fflatiau'n cael eu trosi'n ystafelloedd sengl a gallu pobl lleol i gael llety, yn enwedig teuluoedd.
- Cytuno efo'r egwyddor o ddelio efo gwahanol rannau o Fangor yn wahanol ond bod yn bwysig cofio mae dim ond ar ran bach o ddatblygiadau isrannu mae cynllunio yn berthnasol.
- Oherwydd llety pwrpasol i fyfyrwyr mae rhai landlordiaid yn dechrau meddwl am osod llety i bobl lleol.
- Sut ydym yn gwybod beth yw prif angen am dai aml-feddaniaeth?

Ymatebion:

- Pwrpas y polisi yma yw cael elfen o reolaeth ar y nifer o'r stoc bresennol sydd yn cael ei ddefnyddio fel llety i fyfyrwyr.
- Yr Uned yn cynnal trafodaethau efo'r Brifysgol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r anghenion i'r dyfodol.

PS12 – Tai Fforddiadwy

Sylwadau:

- Teimlo bod y ffigwr o rhwng 1,400 i 1,600 o unedau fforddiadwy yn isel o feddwl faint o unedau mae cymdeithasau tai wedi eu hadeiladu dros y blynyddoedd diwethaf.

Ymatebion:

- Hwn yw ffigwr lleiafswm a buasai unrhyw safleoedd pellach gan gymdeithasau tai yn gallu codi'r lefel yma.

TAI/8 = Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy

Sylwadau:

- Mae'n bosib y bydd yna broblemau efo cytundebau 106 os yw'r Llywodraeth yn y dyfodol yn newid yr hawliau.
- A ellir newid y diffiniad o dai fforddiadwy?
- Cefnogi mwy o dai fforddiadwy gan fod y stoc yma o dai yn llawn.
- Pris y tir yw'r broblem a oes yna ffordd o osod pris safonol ar blot fforddiadwy?

Ymatebion:

- Rhaid gweithio o fewn y ddeddfwriaeth bresennol wrth baratoi'r Cynllun a delio efo oblygiadau unrhyw newidiadau yn y dyfodol os byddent yn dod i fodolaeth.
- Rhaid cadw i'r diffiniad o dai fforddiadwy fel sydd wedi ei osod o fewn Polisi Cynllunio Cymru a TAN2.

- Bwriad y cynllun yw cefnogi darparu cŷn gymaint o dai fforddiadwy a phosib.
- Nid oes modd yn bresennol i osod pris safonol ar blot fforddiadwy.

TAI/8A – Safle Eithrio yn cynnwys Eithrio Arbennig

Sylwadau:

- Hwn yn newid pwysig iawn oherwydd gostyngiad yn y grant sydd ar gael i adeiladu tai fforddiadwy.

Ymatebion:

- Nodi'r sylw.

TAI/10 i TAI/13 – Tablau Lefel Twf Aneddleoedd Unigol

Sylwadau:

- Faint o hyblygrwydd sydd yn y ffigyrau? Gweld bod Bethesda a Rachub efo ffigwr o 30 uned yn y golofn nifer ychwanegol sydd ei angen.
- Biwmares - Cwestiynu os oes yna gyfleoedd o fewn Biwmares i gymryd y twf disgwyliedig.
- Holwyd os yw'r ffigwr banc tir yn cynnwys dynodiadau CDU Gwynedd.
- Llangaffo - cwestiynu sut mae'r ffigwr twf wedi ei gyrraedd a rhòl y ganolfan oherwydd prinder cyfleusterau yno.
- Clynnog Fawr – Cwestiynu mae dim ond un uned sydd wedi ei gwblhau ers 2011 gan fod yna 8 uned wedi ei gwblhau yno yn eithaf diweddar.
- Llanddona a Llangoed – cwestiynu y gwahaniaeth angen pellach rhwng y ddau gan bod ysgol yn Llanddona wedi cau.

Ymatebion:

- Targedau yw rhain a bydd monitro y cynllun yn gweld sut mae datblygiadau yn digwydd. Ar gyfer Bethesda rhaid sylweddoli bod yna 52 o unedau efo caniatâd presennol yn ogystal ar 30 ychwanegol sydd ei angen.
- Ni all y cynllun ddylanwadu ar unedau sydd efo caniatâd cynllunio presennol.
- Biwmares - mae arolwg capasiti trefol yn adnabod cyfleoedd o fewn y dref.
- Nid yw y banc tir yn cynnwys dynodiadau mewn cynllun yn hytrach yr holl unedau oedd efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2014 yw y ffigwr yma.
- Llangaffo - yn dilyn y gwaith o adnabod cyfleusterau yn yr holl aneddleoedd cawsant sgôr ac ar sail y sgôr yma mae'r lefel twf wedi ei selio. Er bod newidiadau yn digwydd yn gyson i wahanol gyfleusterau rhaid symud ymlaen efo paratoi'r Cynllun. Bydd twf yn y canolfannau yma

yn dal i wasanaethu cyfleusterau megis ysgolion hyd yn oed os oes ysgol ardal newydd wedi ei chreu y tu allan i'r anheddle.

- Clynnog Fawr – cytuno i adolygu ein system monitro i gadarnhau sawl uned sydd wedi ei gwblhau yno ers 2011.
- Llanddona a Llangoed – nodi'r sylw, y rheswm bod angen llai yn Llangoed yw oherwydd bod yna fwy o unedau yn y banc tir.

**Atodiad CH – Mapiau Aneddleoedd**

Cafwyd cyflwyniad o'r Prif Aneddleoedd efo'r dynodiadau arfaethedig ar gyfer tai a chyflogaeth. Cytunwyd bod aelodau yn adolygu rhain ac yn adrodd yn ôl ar unrhyw faterion i'w trafod ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

Sylwadau:

- Dim i'w weld bod yna fawr o gyfleoedd o fewn ffiniau datblygu.
- Holwyd os yw'r ffiniau yma yn dilyn argymhellion arolygydd y CDU Gwynedd oedd wedi nodi y dylai ffiniau datblygu cael eu tynnu'n dynn iawn o amgylch anheddau.

Ymatebion:

- Mae'r astudiaeth capasiti trefol wedi adnabod cyfleoedd posib o fewn y canolfannau mwyaf.
- Mae'r ffiniau datblygu yma yn dilyn ffiniau clir sydd yn y gymuned e.e. o amgylch gerddi ayb. Ble yn briodol er mwyn hyrwyddo'r twf disgwyliedig, mae yna leiniau bychan o dir wedi cael eu cynnwys o fewn y ffiniau datblygu.